**Adroddiad i** Gyfarfod y Cyngor

**Dyddiad y cyfarfod:** 20 Chwefror 2018

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts a Bobby Feeley

**Awdur yr Adroddiad:** Sarah Bartlett; Gary Major

**Teitl:** **Cynllun Rhanbarthol Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

**Cynllun Rhanbarthol Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru. Y cynllun hwn yw'r cydgynllun ardal sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017.**

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad o ran cymeradwyo'r Cynllun Rhanbarthol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Cymeradwyo drafft Cynllun Rhanbarthol Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru.

3.2 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad C) fel rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Rhaid i Awdurdodau Lleol a'r bwrdd iechyd yng Ngogledd Cymru gynhyrchu cyd gynllun ardal mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth erbyn 1 Ebrill 2018. Dylai fod yn gynllun pum mlynedd. Yng Ngogledd Cymru rydym wedi cytuno i enwi'r cynllun yn 'Gynllun Rhanbarthol Asesiad Poblogaeth' er mwyn osgoi camddealltwriaeth rhwng ardaloedd gwahanol y tri bwrdd iechyd.

4.2 Mae'r canllawiau statudol yn nodi: "Lle mae adroddiad asesiad poblogaeth ar y cyd wedi ei gynhyrchu, dylai awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynhyrchu cyd gynllun ardal. Rhaid i'r cyd gynlluniau hyn ddarparu disgrifiad o'r amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau a gynigir eu darparu, neu eu trefnu, i ymateb i'r anghenion gofal a chymorth, ac anghenion cymorth gofalwyr, a nodwyd yn y cyd adroddiadau asesiadau poblogaeth.

4.3 Rhaid i gyd gynlluniau ardal ganolbwyntio ar y gwasanaethau integredig a gynlluniwyd mewn ymateb i bob thema graidd a nodwyd yn yr asesiad poblogaeth. Fel rhan o hyn, rhaid i gyd gynlluniau ardal gynnwys:

- y camau gweithredu bydd partneriaid yn eu cymryd o ran meysydd blaenoriaeth integreiddio'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol;
- enghreifftiau a manylion cyllid cronnus i'w sefydlu mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth;

- sut bydd gwasanaethau yn cael eu caffael neu yn cael eu paratoi er mwyn eu darparu, gan gynnwys drwy fodelau darparu amgen;
- manylion y gwasanaethau ataliol a fydd yn cael eu darparu neu eu trefnu;
- camau gweithredu sy'n cael eu cymryd o ran darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau cymorth; a
- camau gweithredu angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg"

4.4 Mae Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi templed ar gyfer y cynllun, yr ydym wedi ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynllun rhanbarthol drafft Gogledd Cymru. Roedd drafft cyntaf y cynllun yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad poblogaeth a beth sydd yn rhaid i ni ei wneud yn gyfreithiol a chafodd ei gymeradwyo yn y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol ar 30 Mehefin 2017 a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar 21 Gorffennaf 2017.

4.5 Ymgynghorwyd ar ddrafft y cynllun rhwng 11 Awst ac 17 Tachwedd 2017. Bwriad ymgynghori ar fersiwn cynnar o ddrafft y cynllun oedd cynnwys cymaint o bobl â phosib yn y broses o ysgrifennu a siapio'r cynllun yn gynnar yn y prosiect. Mae'r canfyddiadau o'r ymgynghoriad wedi eu cynnwys mewn drafft diwygiedig o'r cynllun ac mae adroddiad ymgynghoriad llawn wedi ei gynhyrchu (Atodiad B).

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r cynllun yn gefnogol o'r Blaenoriaethau Corfforaethol, yn arbennig o safbwynt Tai, Cymunedau Cryf a Phobl Ifanc. Bydd y Cynllun Rhanbarthol yn adeiladu ar wybodaeth fewnol a ddarparwyd gan yr Asesiad Poblogaeth i adlewyrchu a chefnogi'r broses gwneud penderfyniadau o ran y cynllunio a chomisiynu gwasanaethau i gwrdd anghenion grwpiau poblogaeth penodol.

5.2 Bydd yr adroddiad terfynol yn cael effaith ar strategaethau gwrthdlodi drwy wella'r ffordd y caiff anghenion gofal cymdeithasol ac iechyd eu bodloni. Mae cysylltiadau cryf rhwng tlodi ac anghydraddoldebau iechyd y dylai'r asesiad poblogaeth helpu mynd i'r afael â nhw. Ceir cysylltiadau â throsedd ac anhrefn drwy'r bennod ar drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

5.3 Mae Asesiad o'r Effaith ar Les ac adroddiad ymgynghoriad wedi eu cwblhau ar gyfer y cynllun. Bydd angen cwblhau Asesiadau Effaith pellach fel mae cynlluniau manwl yn cael eu datblygu o dan bob blaenoriaeth strategol.

5.4 Bydd yr adroddiad hefyd yn ystyried gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys cynaliadwyedd . Rydym wedi cynnal asesiad o'r effaith ar les ar y cynllun hwn (Atodiad C).

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae cronfeydd Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru yn ariannu Rheolwr Prosiect Rhanbarthol i gefnogi'r prosiect a chostau cysylltiedig gan gynnwys cyfieithu ac ymgysylltu arbenigol.

6.2 Mae yna gost i'r awdurdodau lleol, BIPBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran amser staff i gefnogi'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys staff i wneud gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, staff ac aelodau etholedig a staff i gefnogi'r gwaith o ysgrifennu'r asesiad poblogaeth a'r cynllun rhanbarthol.

6.3 Bydd goblygiadau o ran adnoddau o safbwynt cyflawni’r blaenoriaethau yn y cynllun rhanbarthol. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y cynllun ac mewn cynlluniau cyflenwi a sgôp manwl a baratowyd ar gyfer pob blaenoriaeth.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1 Nod y cynllun yw dangos sut byddwn yn diwallu anghenion gofal a chymorth pobl ac anghenion cymorth gofalwyr yng Ngogledd Cymru. Os bydd amcanion y cynllun yn cael eu cyflawni dylent gael effaith bositif ar iechyd pobl, lleihau anghydraddoldebau, a chefnogi datblygiad cymunedau cydlynus yng Ngogledd Cymru.

**7.2 Mae effeithiau negyddol yn bosib, yn arbennig o benderfyniadau anodd ynglŷn â lle i flaenoriaethu buddsoddi, a allai olygu anfantais i rai grwpiau dros eraill. Mae effeithiau cadarnhaol a negyddol posib hefyd o’r ffordd y byddwn yn comisiynu, caffael a defnyddio a datblygu asedau ymarferol yn y rhanbarth er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth.**

7.3 Mae’r asesiad effaith wedi amlygu rhai effeithiau posib ar y cynllun rhanbarthol strategol ac rydym yn argymell fod yr effeithiau yn parhau i gael eu hasesu fel mae penderfyniadau gweithredol a strategol pellach yn cael eu gwneud am sut i roi’r cynllun ar waith.

**7.4 Y dull a ddefnyddiwyd i gwblhau’r Asesiad o’r Effaith ar Les oedd cynnal sesiwn wedi ei hwyluso ar 10 Hydref 2017, gan wahodd pobl o bob awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd i gymryd rhan. Adolygwyd y drafft a gynhyrchwyd yn y sesiwn ar 1 Rhagfyr 2017 gan grŵp llywio'r prosiect sy’n cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol, BIPBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Adolygwyd yr Asesiad o Effaith ar Les yn Grŵp Sicrwydd Ansawdd Cyngor Sir Ddinbych ar 31 Tachwedd 2017.**

7.5 Bwriad y cynllun yw dylanwadau’r broses o wneud penderfyniadau a dyraniad adnoddau. Bydd sut bydd yn gweithio yn ymarferol yn dod yn fwy eglur. Ystyriwyd nifer o sefyllfaoedd gwahanol i gwblhau’r asesiad effaith y bydd angen ei adolygu fel mae mwy o wybodaeth yn dod ar gael. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn deall effaith y cynllun ar bobl sydd â nodweddion a ddiogelir a sut gallwn reoli’r effaith / dileu’r pethau negyddol, a pha effaith fydd hynny yn ei gael ar gyllid. Fe wnaeth cyflawni’r asesiad effaith hefyd nodi peryglon sydd angen eu trosglwyddo i gofrestr risg y prosiect.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Cynhaliwyd ymgynghori ar y cynllun rhwng 11 Awst ac 17 Tachwedd 2017 (gweler 4.5 uchod ac Atodiad B)

8.2 Cylchredwyd y cynllun drafft i holl Aelodau Cyngor Sir Ddinbych ar e-bost ar 26 Hydref 2017.

8.3 Y llwybr arfaethedig ar gyfer yr adroddiad yw:

- Cymeradwyaeth gan y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol 15 Rhagfyr 2017 a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar 11 Ionawr 2018.
- Cymeradwyaeth gan awdurdodau lleol a’r bwrdd iechyd (rhwng Ionawr a Mawrth 2018)
- Cyhoeddi (1 Ebrill 2018)

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd y cynllun o gymorth i hysbysu cynllunio strategol a blaenoriaethau ar gyfer gofal a chymorth perthnasol ar draws y rhanbarth. Bydd rhaid ystyried sut mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu i gynorthwyo'r Cynllun yn ofalus.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y risg na fydd y cynllun yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. I liniaru, mae'r adroddiad yn seiliedig ar y templed a gynhyrchwyd gan Gofal Cymdeithas Cymru ac rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru drwy'r grŵp arweinwyr rhanbarthol.

10.2 Y risg na fydd y cynllun yn diwallu anghenion y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gofalwyr a phobl sydd arnynt angen gofal a chymorth. I liniaru, rydym wedi ymgynghori a chynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid.

10.3 Y risg na fydd y gallu yn y rhanbarth i gyflawni unrhyw flaenoriaethau ychwanegol neu ehangach yn ogystal â blaenoriaethau cyfredol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n hanfodol cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar gyfer y Cynllun Rhanbarthol cyn mabwysiadu'r fersiwn derfynol. Bydd angen rhannu'r fersiwn derfynol gyda Llywodraeth Cymru a sicrhau ei fod ar gael ar wefan y Cyngor Sir.

| | |
|---|---|
| **Atodiadau** | **A. Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru**<br>**B. Adroddiad Ymgynghoriad Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru**<br>**C. Asesiad o'r Effaith ar Les Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru (gan gynnwys yr Asesiad O Effaith Ar Gydraddoldeb)** |
| **Papurau cefndir** | **Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru:**<br>**www.northwalescollaborative.wales**<br>**canllawiau statudol cynllun ardal:**<br>**http://gov.wales/docs/dhss/publications/170206statutory-guidanceen.pdf**<br>**Canllaw a thempled cynllun ardal Gofal Cymdeithasol Cymru:**<br>**https://socialcare.wales/hub/hub-resource-sub-categories/planning-and-promoting** |